Stonewall
CYMRU

Eich cyfrif neu'ch eithrio

Casgliadau Arolwg Stonewall Cymru 2002-2003 ar lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol Hydref 2003

Stonewall Cymru

Caerdydd
d/o CCC
Tŷ Windsor
Lôn Windsor
Caerdydd
CF10 3GE
Ffôn 029 2023 7744
Ffacs 029 2064 1079

Bangor
Tŷ Gwydr
1 Rhes Trefelyan
Stryd Fawr
Bangor
LL57 1AX
Ffôn 0845 4569823
Ffacs 07092 333962

cymru@stonewall.org.uk
www.stonewall.org.uk

Prifysgol Caerdydd

Dr Amanda L Robinson
a Matthew Williams

Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd
Adeilad Morgannwg
Rhodfa Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3WT

Cynnwys

3 **Cyd-destun yr adroddiad**

4 **Crynodeb o gasgliadau**

5 **Prif gasgliadau**

8 **Argymhellion**

10 **Methodoleg**

Cyd-destun yr adroddiad

Yn hanesyddol, cafodd gwahaniaethu yn erbyn lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol (LGB) ei anwybyddu, weithiau, hyd yn oed, ei annog. O ganlyniad, prin iawn fu'r arian a fuddsoddwyd gan Lywodraethau i ymchwilio i faint y rhagfarn a brofwyd gan bobl LGB. Prin bod gwybodaeth benodol am Gymru'n bodoli o gwbl. Bu'r diffyg gwybodaeth hwn yn esgus i wneuthurwyr polisi, ac i gyflogwyr, i osgoi trafod pynciau cydraddoldeb LGB.

Yn ffodus, mae'r sefyllfa hon yn newid. Ers datganoli, gwelwyd cynnydd yn y gefnogaeth wleidyddol ac ariannol yng Nghymru i fentrau sy'n ceisio hyrwyddo cydraddoldeb i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol. Hefyd, o Ragfyr 2003, am y tro cyntaf, bydd deddfwriaeth mewn grym i wneud gwahaniaethu yn y gweithle ar sail tueddiad rhywiol yn anghyfreithlon. Mae'r ddwy elfen hon wedi cyfrannu at roi materion gwahaniaethu LGB yn uwch ar yr agenda gydraddoldeb yng Nghymru.

Gydag arian a ddaeth o Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, mentrodd Stonewall Cymru ar yr arolwg cyntaf Cymru gyfan hwn o lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Amcan yr arolwg yw cael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl LGB yng Nghymru – i sicrhau bod ein gwaith wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mhryderon pobl LGB, a bod y gwaith o greu polisi yn Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth, ac nid ar hanesion.

Mae argymhellion polisi'r adroddiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae mwyafrif y pynciau a amlygir gan yr arolwg hwn yn endemig i broblem ehangach, sy'n amlwg nid yn unig yn y DU ond yn fyd-eang.

Crynodeb o gasgliadau

Yn dilyn mae uchafbwyntiau prif gasgliadau'r adroddiad:

- ★ Dywedodd mwy nag 1 o bob 3 atebwr eu bod wedi dioddef gan drais corfforol neu fwlio. Roedd mwy na hanner y rhai rhwng 18 a 25 wedi dioddef gan ymosodiadau corfforol neu fwlio. Roedd dynion yn llawer iawn mwy tebygol o fod wedi dioddef erledigaeth gorfforol.
- ★ Roedd dynion hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u diswyddo na merched, o gael gwrthod mynediad at eu plant, o beidio â chael eu dewis am swydd, o gael eu troi o'u cartrefi, o ddioddef aflonyddu gan yr heddlu, o beidio â chael yr un addysg neu hyfforddiant, ac o gael eu hecsploitio'n economaidd oherwydd eu rhywioldeb.
- ★ Adroddodd 25% o ymatebwyr eu bod wedi cael eu diswyddo oherwydd eu rhywioldeb. Dywedodd cyfran fawr eu bod wedi dioddef gan aflonyddu yn y gweithle. Dywedodd bron 20% o ymatebwyr eu bod yn cuddio'u hunaniaeth rhywiol yn y gweithle.
- ★ Roedd pobl LGB gydag anabledd yn llawer iawn mwy tebygol o ddioddef rhagfarn ym mhob agwedd ar fywyd.
- ★ Mae ymatebwyr hŷn yn dioddef llai o ragfarn o'u cymharu â grwpiau oed eraill. Roeddent hefyd yn llai tebygol o wneud eu hunaniaeth rhywiol yn hysbys ac yn llai tebygol o fod yn weithgar yn y gymuned. Gyda'i gilydd gallai'r nodweddion hyn arwain at eithrio cymdeithasol i bobl LGB hŷn.
- ★ Nid oedd siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, na byw mewn rhan arbennig o Gymru (de, gorllewin/canolbarth neu'r gogledd) yn effeithio fawr ddim ar y tebygrwydd o ddioddef erledigaeth gorfforol nac unrhyw ffurf arall ar ragfarn.
- ★ Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn dweud bod amddiffyniad y gyfraith ohonynt yn ddiffygiol a chwarter yn dweud eu bod wedi cael eu haflonyddu, neu wedi dioddef rhagfarn yn eu herbyn gan yr heddlu. Yn gyffredinol, roedd barn a phrofiad pobl o'r heddlu'n gymysg, efallai'n adlewyrchu'r gwaith rhagweithiol a wnaed gan wasanaethau'r heddlu mewn perthynas â throseddau'n deillio o gasineb homoffobaidd.
- ★ Gall mynychter yr enghreifftiau fictimeiddio pobl ifanc LGB yn yr arolwg fod yn arwydd o fwlio ysgol. Mae'r lefelau cynyddol o fwlio mewn lleoliadau addysgol yn cael effaith negyddol ddifrifol ar iechyd a lles cymdeithasol pobl ifanc pobl LGB.
- ★ Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo bod y rhwystrau, a'r atebion, i gydraddoldeb i hoywon i'w darganfod ar lefel cymdeithas, ac yn rhoi llai o gyfrifoldeb arnynt eu hunain, neu'r gymuned LGB, fel ffynhonnell rhwystrau ac atebion. Roedd canfod atebion er mwyn cael cydraddoldeb hoyw yn cynyddu gydag oed ond yn gostwng ar ôl trigain oed.

Prif Gasgliadau

Hwn oedd yr arolwg mawr cyntaf o'i fath i ganfod problemau ac anghenion unigryw pobl LGB ar draws Cymru. Roedd yr arolwg yn archwiliadol ei natur, yn canolbwyntio ar amrywiol feysydd profiad a chanfyddiad, o safbwyntiau, i rwystrau ac atebion er mwyn cyrraedd cydraddoldeb, i lefelau fictimeiddio corfforol. Felly, nid oedd yr arolwg wedi'i gynllunio i archwilio unrhyw ffenomena arbennig oedd yn perthyn i'r boblogaeth LGB Gymreig. Yn hytrach, cafwyd cipolwg ar fywyd LGB Cymru lle gellid canfod perthynas ag eraill a themâu ar draws profiadau cymdeithasol. Ymhlith rhai o'r casgliadau mwyaf arwyddocaol roedd y canlynol:

Perthynas ag eraill

Yn nhermau hyd perthynas nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng dynion a merched. Cyfartaledd hyd perthynas oedd rhwng 2 a 5 mlynedd. Mae cyfrannau cyffelyb o ddynion a merched yn cydfyw gyda chymar, a chyfrannau tebyg iawn wedi gwneud trefniadau cyfreithiol. Roedd tua 1 ym mhob 5 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gofalu am blentyn. Roedd mwy na 60% o ymatebwyr yn dweud y byddent yn dymuno magu plentyn gyda'u cymar yn y dyfodol.

Amlygrwydd Tueddfryd Rhywiol

Gwelwyd bod cyfrannau uwch o'r ymatebwyr 'allan' i bobl yn eu teulu o'i gymharu â phobl eraill fel cymdogion neu gydweithwyr. Y bobl yr oedd ymatebwyr yn lleiaf tebygol o fod allan iddynt oedd cydweithwyr, yr asiantaeth budd-daliadau a'r banc. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr allan i'w meddyg teulu. Ar y raddfa amlygrwydd, gwelwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn y sgoriau yn ôl oed yr atebwyr. O'r holl gategoriau oed, y rhai oedd rhwng 18-25 oed gafodd y sgoriau uchaf ar y raddfa amlygrwydd o'i gymharu â'r rhai oedd dros 60 a gafodd y sgôr isaf.

Digwyddiadau yn y Gymuned

O'i gymharu â merched, roedd dynion yn sylweddol fwy tebygol o fod yn rhan o ddigwyddiadau'r gymuned (fel gwarchod y gymdogaeth, timau troseddwyr ifanc, canolfan yr enfys ayyb.), gweithgareddau LGB (BLAG, FFLAG, prosiect GYL ayyb.)[1], a gwleidydiaeth leol. Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru yn fwy tebygol o fod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth leol o'u cymharu ag ymatebwyr yn byw yn Ne Cymru neu Ganolbarth-Gorllewin Cymru.

[1] BLAG – Pobl Ddeurywiol, Lesbiaidd a Hoyw – Grŵp cyswllt Heddlu De Cymru
FFLAG – Teuluoedd a Ffrindiau Lesbiaid a Hoywon
GYL – Llinell Ifanc Hoyw.

Profiadau o Wahaniaethu

Roedd mwy nag 1 o bob 3 o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi dioddef trais corfforol neu fwlio. Gwelwyd perthynas gyson rhwng rhyw a gwahaniaethu oherwydd tueddfryd rhywiol. Mae'n ymddangos bod merched yn llai tebygol o ddioddef trais corfforol, o gael gwrthod mynediad at eu plant, o beidio â chael eu dewis am swydd, o gael eu diswyddo, o gael eu taflu allan o'u llety, o gael eu haflonyddu gan yr heddlu, o beidio â derbyn yr un addysg neu hyfforddiant ac o gael eu hecsploitio'n economaidd.

Roedd y rhai ag anabledd yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu yn eu herbyn drwyddi draw. Roedd ymatebwyr hŷn yn dioddef llai o ragfarn na grwpiau oed eraill.

Rhwystrau ac Atebion: Cyrraedd Cydraddoldeb i Hoywon

O ran rhwystrau canfyddedig i gydraddoldeb i hoywon roedd lefelau cytuno dynion a merched yn debyg iawn. Y patrwm a welwyd oedd bod ymatebwyr yn fwy tebygol o feddwl bod rhwystrau i gydraddoldeb i hoywon yn deillio o ystyriaethau cymdeithasol nag o ystyriaethau cymuned LGB neu ystyriaethau personol. Patrwm tebyg oedd i'r atebion. Roedd canfyddiadau ymatebwyr o'r atebion yn canolbwyntio mwy ar y gymdeithas yn gyffredinol nag ar y lefel bersonol neu LGB. Gwelwyd hefyd bod canfyddiadau o atebion yn tueddu i gynyddu'n raddol gydag oed, ond yn disgyn wedi i ymatebwyr gyrraedd 60 oed.

Oed

Roedd yn amlwg iawn bod pobl hŷn yn tueddu i fod yn llai gweledig fel LGB, yn ymwneud llai â gweithgareddau'r gymuned ac yn cael eu heithrio o fywyd cymdeithasol LGB. O ganlyniad, mae pobl hŷn LGB mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol sydd â chanlyniadau eraill o ran eu lles a'u hiechyd. Un elfen bwysig sy'n cyfrannu at yr eithrio gymdeithaol hwn yw'r ofn heneiddio sy'n cronni ym meddyliau pobl iau LGB. Mae'r ofn hwn yn arwain at eithrio pobl hŷn LGB. Er mwyn osgoi eithrio cymdeithasol yn y dyfodol, rhaid atal y broses gylchdröol hyn.

Bwlio ysgol

Roedd y rhai dan 25 oed yn nodi lefel uchel o drais corfforol a bwlio o'i gymharu ag arolygon cenedlaethol a lleol eraill. Mae'n bur debyg bod cyfran helaeth o'r fictimeiddio hwn yn digwydd yn yr ysgol, gan fod 44% o'r rhai dan 25 yn disgrifio'u hunain fel myfyrwyr. Fodd bynnag, mae angen mwy o ymchwil i ganfod lle a pha bryd y cafodd y bobl ifanc eu fictimeiddio yn gorfforol neu eu bwlio. Mae lefel uchel fictimeiddio corfforol yn y sampl Cymreig yn destun pryder, o gofio bod bwlio homoffobaidd yn cael effaith ddifrifol iawn o ran absenoldeb o'r ysgol, perfformiad mewn arholiadau, iechyd meddwl a chael syniadau am hunan-laddiad. Er bod y DfEE a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau positif i atal bwlio homoffobaidd yn yr ysgol, bach iawn fydd hyn yn ei gyflawni nes i Adran 28 o'r Ddeddf Lllywodraeth Leol gael ei diddymu

Cyflogaeth

Roedd y sampl Cymreig yn dweud llawer am faterion cyflogaeth mewn perthynas â'u hunaniaeth rywiol. Yn fwyaf trawiadol, roedd 25% yn dweud iddynt gael eu diswyddo oherwydd eu rhywioldeb. Mae hyn yn fwy na dwywaith cyfartaledd y DU i bobl LGB. Oherwydd yr agweddau negyddol hyn tuag at bobl LGB, roedd rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn dioddef o aflonyddu yn y gweithle. Gwelwyd yn yr arolwg bod niferoedd y bobl LGB oedd yn anfodlon datgelu'u hunaniaeth rywiol yn debyg i'r hyn a welwyd mewn ymchwil arall gan Stonewall. Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth gartref sy'n gwahardd triniaeth annheg i bobl LGB yn y gweithle. Tra bod deddfwriaeth Ewropeaidd yn cael ei chyflwyno, mae'n gwestiwn a fydd hyn yn ddigonol i amddiffyn yn llawn hawliau pobl LGB ym mhob gweithle.

Fictimeiddio a Chyfiawnder Troseddol

Roedd lefelau cyffredinol trais corfforol a bwlio ychydig yn uwch nag a welwyd mewn arolygon eraill gan Stonewall. Fel sy'n arferol mewn ymchwil o'r math hwn, roedd rhai o'r disgrifiadau ansoddol o fictimeiddio yn rhywiol iawn eu natur ac yn erchyll. Weithiau, dywedodd ymatebwyr bod eu plant hefyd yn dioddef gan bobl oedd yn cyflawni troseddau casineb homoffobaidd. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith, a chwarter yn dweud iddynt ddioddef gwahaniaethu neu eu haflonyddu gan yr heddlu. Yn fwy cyffredinol, roedd elfennau ansoddol yr arolwg yn nodi amrywiaeth o brofiadau gyda'r heddlu. Mae'n debyg bod strategaethau rhagweithiol gan yr heddlu wrth ymwneud â throseddau casineb homoffobaidd, a gostyngiad yn yr heddluo brwd ar droseddau anwedduster difrifol, yn dwyn ffrwyth, ac yn llwyddo i wella'r berthynas gecrus a fu rhwng yr heddlu a'r gymuned LGB.

25% yn dweud iddynt gael eu diswyddo oherwydd eu rhywioldeb. Mae hyn yn fwy na dwywaith cyfartaledd y DU i bobl LGB.

Argymhellion

Mae argymhellion polisi'r adroddiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Mae mwyafrif y pynciau a amlygir gan yr arolwg hwn yn endemig i broblem ehangach, sy'n amlwg nid yn unig yn y DU ond yn fyd-eang. Fodd bynnag, rhaid bod yn ymarferol ac mae'r argymhellion isod yn berthnasol i gyrff lleol, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau addysg lleol, cynghorau sir, cyrff elusennol, gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd a gwasanaethau heddlu lleol.

Cyffredinol

- ★ Ni ddylai cydraddoldeb LGB mwyach fod yn bwnc cydraddoldeb ail-reng yng Nghymru. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill roi blaenoriaeth gyfartal i gydraddoldeb LGB ar yr agenda gydraddoldeb.
- ★ Dylai pob corff cyhoeddus fod dan orfodaeth statudol i roi blaenoriaeth i weithredu cydraddoldeb.
- ★ Yn wyneb y gwahaniaethau mewn gwahaniaethu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU, rhaid i unrhyw Gorff Cydraddoldeb Unigol newydd gydnabod datganoli fel bod y gwahaniaethau unigryw hyn yn cael triniaeth gyflawn ar raddfa leol.

Perthynas ag eraill

- ★ Dylai partneriaethau cyfunrywiol sifil gael cydnabyddiaeth y gyfraith.
- ★ Mwy a gwell mynediad i wybodaeth am hawliau mabwysiadu.
- ★ Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi canllawiau i'r GIG yng Nghymru am yr hyn ddylai perthynas agosaf ei olygu.

Addysg a Ieuenctid

- ★ Mwy o gefnogaeth i'r grwpiau sy'n cynghori pobl sy'n 'dod allan', yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn wir am bobl ifanc a hen LGB, fel ei gilydd.
- ★ Wedi diddymu Adran 28 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol, mwy o gefnogaeth i alluogi athrawon i gynghori ac i ddelio â hunaniaeth rywiol a bwlio yn agored ac yn rhydd heb ofni dial.[2]
- ★ Cydnabod a chynnwys pynciau LGB wrth ddysgu fframwaith cyfnod allweddol Addysg Bersonol a Chymdeithasol y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- ★ Mwy o gefnogaeth i gyflwyno polisi gwrth-fwlio homoffobaidd.
- ★ Cefnogaeth i staff LBG.
- ★ Mwy o hyfforddiant cyfle cyfartal ac amrywiaeth i athrawon, a hynny'n gyson.
- ★ Cosbi athrawon a geir yn euog o fwlio homoffobaidd neu o gamdrin aelodau eraill o'r staff neu fyfyrwyr/disgyblion.

[2] Mae Stonewall Cymru wedi datblygu hyfforddiant ac adnoddau i athrawon ar bynciau LGB.

Datblygu'r Gymuned ac Oed

- ★ Codi cyfraniad gwirfoddol merched a phobl hŷn LGB yn y gymuned a digwyddiadau LGB
- ★ Lleihau eithrio cymdeithasol pobl hŷn LGB o'r prif 'sîn' cymdeithasol LGB yng Nghymru trwy greu grwpiau cefnogi a hyrwyddo delwedd bositif i heneiddio.
- ★ Darparu hyfforddiant cyson mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth i weithwyr cymdeithasol a gofal iechyd, gan roi sylw arbennig i'r problemau unigryw sy'n wynebu pobl LGB, y rhai hŷn a'r rhai iau.
- ★ Mwy o adeiladu gallu a hynny'n rhanbarthol. Rhoi mwy o gefnogaeth i rwydweithiau rhanbarthol er mwyn rhoi gwell mynediad i wasanaethau, a'u hyrwyddo i bobl LGB o bob oed yn y cymunedau lleol.

Cyflogaeth

- ★ Dylai'r Llywodraeth edrych yn fanwl ar y consesiynau presennol a roddir i gyrff crefyddol, a'r cyrff hynny sy'n honni eu bod yn cael eu rheoli gan egwyddorion crefyddol, yng nghyfarwyddyd fframwaith yr UE ar driniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Ar lefel leol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud safiad yn erbyn y consesiynau hyn a chomisiynu archwiliad o'r effaith fyddent yn ei gael yng Nghymru.

Profiadau o Wahaniaethu

- ★ Cyflwyno deddfwriaeth 'Troseddau Casineb' i ddelio â thrais homoffobaidd yn deillio o gasineb, a difrod i eiddo.
- ★ Cyflwyno deddfwriaeth 'Troseddau Casineb' sy'n cydnabod bodolaeth gwahaniaethu lluosog, yn cynnwys gwahaniaethu yn erbyn merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl LGB gydag anabledd.
- ★ Cyflwyno deddfwriaeth gyffelyb i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw.
- ★ Parhau i gefnogi hyfforddiant mewn cyfle cyfartal ac amrywiaeth i'r holl wasanaethau heddlu.
- ★ Hyrwyddo ymhellach grwpiau cyswllt a chyfarfodydd rhwng yr heddlu a'r gymuned LGB.
- ★ Cyflwyno deddfwriaeth gartref yn erbyn gwahaniaethu yn y gweithle sy'n cydnabod tueddfryd rhywiol.
- ★ Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Côd Ymarfer ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y gweithle mewn perthynas â thueddfryd rhywiol, rhyw, hil ac anabledd.

Ni ddylai cydraddoldeb LGB mwyach fod yn bwnc cydraddoldeb ail-reng yng Nghymru - dylai cyrff cyhoeddus eraill roi blaenoriaeth gyfartal i gydraddoldeb LGB ar yr agenda gydraddoldeb.

Methodoleg

Dewis y Sampl

Mae'r sampl a ddadansoddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys 354 o lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol a rhai sydd wedi newid eu rhyw.[3]

Mabwysiadwyd strategaeth samplu bwriadus ar gyfer yr ymchwil hwn. Ar gyfer dosbarthu'r holiaduron, targedwyd ardaloedd a digwyddiadau lle roedd pobl LGB yn debyg o fod yn bresennol. Roedd y prif safleoedd yn cynnwys: Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi, Mardi Gras Caerdydd, cynhadledd flynyddol gyntaf Stonewall Cymru yng Nghaerdydd, ac amryw o glybiau nos a grwpiau lleol ledled Cymru. Defnyddiwyd sawl cronfa ddata aelodaeth i ddosbarthu'r arolwg, gan gynnwys Stonewall Cymru, Pwyllgor Lesbiaid a Hoywon TUC Cymru a Llinell Lesbiaidd Gogledd Cymru. Ac yn olaf, defnyddiwyd gwefannau (fel Hoyw Cymru) i ddosbarthu'r holiadur.

Mae'n debyg mai Mardi Gras a chynhadledd flynyddol Stonewall Cymru ddenodd y rhan fwyaf o ymatebwyr. Mae'n debyg bod amlygrwydd yr ymatebwyr lesbiaidd yn yr arolwg yn ganlyniad y ffaith i'r holiadur gael ei ddosbarthu gan y cylchgrawn lesbiaidd Womanzone.

Mae diffyg grwpiau cymuned neu fframwaith da o gymunedau ar draws rhannau helaeth o'r Gymru wledig yn ei gwneud yn fwy anodd cael mynediad at bobl LGB yn yr ardaloedd hynny. Mae Stonewall Cymru ar hyn o bryd yn ymchwilio i ffyrdd o ychwanegu at eu gallu i wneud hyn a gwella'r isadeiledd cymunedol ar sail ranbarthol.

Man cychwyn yn unig yw'r astudiaeth hon. Ni ddylid rhagdybio o gwbl bod y methodoleg wedi arwain at sampl sy'n gynrychioliadol o'r holl bobl LGB sy'n byw yng Nghymru. Dylid trin canlyniadau'r astudiaeth hon fel ymgais gyntaf i gael hyd i ganfyddiadau a phrofiadau'r bobl LGB hynny yng Nghymru a fedrodd ateb yr arolwg.

Hwn oedd yr arolwg mawr cyntaf o'i fath i ganfod problemau ac anghenion unigryw pobl LGB ar draws Cymru.

[3] Disgrifiodd un ymatebwr ei hunaniaeth rywiol fel trawsrywiedig (gwryw i fenyw) ac un arall yn drawsrywiedig (menyw i gwryw).Doedd yr arolwg ddim yn gwneud yn glir a fyddai'r ymatebwyr hyn yn disgrifio'u hunaniaeth rywiol fel cyfunrhywiol, deurywiol, neu anghyfunrywiol. Gan eu bod yn ymateb i "Arolwg Cymru - y Gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol," rhaid i ni gymryd yn ganiataol eu bod yn hoyw. Fodd bynnag, yn y dyfodol bydd yr arolwg yn cael ei addasu i wneud hyn yn glir. Gan adlewyrchu hunaniaeth rywiol mwyafrif yr ymatebwyr, ac i hyrwyddo'r cyflwyniad, defnyddiwn yr acronym LGB drwy gydol yr adroddiad hwn.